Sut mae ennill gwobrau yn y Sioe Fêl

Peter McFadden, Cymdeithas Gwenynwyr Conwy

Peidiwch â meddwl bod angen oes o arddangos mêl i ennill gwobrau. Ewch am y dosbarthiadau haws er mwyn ennill! Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r rhaglen ddiweddaraf. Darllenwch y rhaglen yn ofalus iawn. Gwnewch yn siŵr bod eich mêl yn cael ei roi yn y dosbarth cywir a'ch bod yn defnyddio jariau o'r maint cywir.

Y dosbarthiadau mêl clir ysgafn a chanolig yw'r mwyaf poblogaidd, ond y rhai anoddaf eu hennill. Os yw'r rhaglen yn gofyn am ddwy jar o fêl, dylai'r jariau fod yn union yr un fath â'i gilydd.
Edrychwch a ydyn nhw'n gofyn am gloriau plastig neu fetel. Defnyddiwch jariau a chloriau newydd bob amser.

Dosbarthiadau hawdd:

Ffrâm bas o fêl sy'n addas i'w dynnu

Dewiswch ffrâm drom o fêl gydag wynebau gwastad, pob cell wedi'i selio, dim mannau gwag, dim crwybr angori (*brace comb*) ar y ffrâm, dim olion teithio melyn ar y cloriau. Dylai'r crwybr gael ei weirio. Daliwch y ffrâm i fyny at olau cryf. Gwnewch yn siŵr nad oes gronynnau a phaill. Crafwch y pren yn lân â llafn cyllell Stanley.
Defnyddiwch gas arddangos o ansawdd da gyda gwydr glân.

Crwybr wedi'i dorri

Torrwch y darnau crwybr yn ofalus a'u rhoi ar rwyll gril i ddiferu. Mae'r beirniad yn chwilio am ddarnau o grwybr trwm sydd un fath â'i gilydd, wedi'u selio ar bob ochr, dim mêl hylifol yn y cynhwysydd, dim paill, dim mêl ar glawr y cynhwysydd. Mae'r beirniad yn tynnu'r crwybr o'r blwch ac yn edrych i weld bod cloriau oddi tano.

Talp o fêl

Hawdd a deniadol. Gallwch ennill Seren y Sioe gyda'r dosbarth hwn.
Torrwch y darn mwyaf posib o grwybr i ffitio yn y jar. Rhaid i'r crwybr fod yr un uchder â'r jar neu bydd yn codi, gan adael bwlch oddi tano. Dylai'r crwybr sefyll yn syth. Mae'r gwydr yn chwyddo maint y crwybr fel ei fod yn edrych yn wych. Defnyddiwch fêl golau, hylifol, a defnyddiwch fêl o'r un lliw ar gyfer y crwybr. Dim darnau rhydd o gapiau selio yn y jar, dim paill.

Dyfais

Gall unrhyw syniad da, defnyddiol ennill gwobr, ond rhaid iddo fod yn syniad gwreiddiol. Cofiwch gynnwys disgrifiad eglur.

Arddangosfa o gynnyrch y cwch

Does dim cymaint yn cynnig yn y dosbarth hwn; mewn sioeau bach yn anaml mae mwy na llond dwrn.
Tri math o fêl mewn jariau, ffrâm braf o fêl a thalp da o grwybr ac fe ddylech ennill gwobr.

Ffotograff

Does dim angen ichi fod yn wenynwr hyd yn oed i ennill y dosbarth hwn!

Dosbarthiadau anodd:

Mêl ysgafn, mêl canolig

Dosbarthiadau poblogaidd iawn lle mae angen cryn amynedd i ennill. Mae'r beirniad yn defnyddio tortsh i chwilio am ddarnau o grwybr neu baill. Defnyddiwch wydrau graddio i sicrhau bod y mêl yn y dosbarth cywir. Rhaid i'r mêl fod yn pwyso'n gywir, gyda blas da, yn glir fel grisial, heb lwch ar wyneb y mêl ac yn ludiog braf.

Blocyn o gwyr gwenyn

Mae angen amynedd a thechneg dda i gynhyrchu blocyn a all ennill gwobr. Mae cwyr persawrus, golau ei liw yn ennill gwobrau, ond dydy cwyr tywyll pŵl ddim yn gwneud hynny. Cwyr grug sydd â'r persawr gorau. Gwnewch yn siŵr fod y pwysau'n gywir.

Mêl tywyll

Dim ond yn achlysurol y mae'n cael ei gynhyrchu. Mae rhai cystadleuwyr diegwyddor yn dangos yr un hen jariau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Dosbarthiadau eraill:

Mêl gronynnog Gronynnau mân, dim ysgeintio (*frosting*) yn erbyn y gwydr a dim gweddill hylif ar ben y mêl. Bydd mêl â blas cryf yn gwneud yn dda.

Mêl wedi setio'n feddal Dim ysgeintio a blas cryf. Bydd cyfuniad o fêl grug/rêp hadau olew'n gwneud yn dda.

Canhwyllau Mae angen mwy i gynnig yma. Rhowch gynnig ar wneud canhwyllau wedi'u trochi'n hytrach na defnyddio mowldiau.

Mêl grug Y mêl gorau i gyd. Mae'r beirniad yn chwilio am fêl melyngoch a swigod aer mawr. Rhaid i fêl grug fod yn thicsotropig, h.y. fel jeli. Ddylai dim bod gronynnau.

Pob hwyl!

Lluniwyd gan Peter McFadden, diweddarwyd ym mis Medi 2010.